



*Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate  
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Sefydledig Caergeiliog  
Caergeiliog  
Caergybi  
Ynys Môn  
LL65 3NP**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.gov.uk](mailto:cyhoeddiadau@estyn.gov.uk)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk)

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 24/01/2014

## Cyd-destun

Mae Ysgol Sefydledig Caergeiliog wedi'i lleoli ym mhentref Caergeiliog ger y Fali yn Ynys Môn. Yr ysgol oedd yr ysgol gynradd gyntaf yng Nghymru i gael statws cynhelir gan grant ym 1993 a daeth yn ysgol sefydledig ym 1999. Mae 387 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed yn yr ysgol, gan gynnwys 25 o blant yn y meithrin. Mae 14 o ddsbarthiadau oedran unigol, yn ogystal â dosbarth meithrin yn y bore a'r prynhawn. Caiff plant y meithrin eu derbyn i'r ysgol yn rhan-amser ar ddechrau'r flwyddyn academaidd yn dilyn eu trydydd pen-blwydd.

Mae'r ysgol yn denu disgyblion o'r pentref ei hun, o ganolfan y Llu Awyr yn y Fali ac mor bell â Bangor a Llandudno. Mae gan ryw 11% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, sydd gryn dipyn yn is na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol.

Daw bron pob un o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir Saesneg fel y brif iaith. Mae un deg tri y cant o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac mae disgyblion o ethnigrwydd gwyn Prydeinig yn bennaf. Mae un deg wyth y cant o'r disgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol ac ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Ni waharddwyd unrhyw ddisgybl yn y 12 mis diwethaf.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn 2007. Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er Medi 2013.

Mae'r gyllideb unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Caergeiliog yn 2013-2014 yn golygu mai'r gyllideb yw £2,901 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yn Ynys Môn yw £9,156 a'r isafswm yw £2,901. Mae Ysgol Gynradd Caergeiliog yn safle 48 allan o'r 48 ysgol gynradd yn Ynys Môn o ran ei chyllideb fesul disgybl.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol yr ysgol</b>	<b>Da</b>
<b>Rhagolygon gwella'r ysgol</b>	<b>Da</b>

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd;

- mae tuedd o wella mewn perthynas â chyrraeddian disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ac ar ddiwedd cyfnod allweddol 2;
- mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u targedau dysgu unigol;
- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at fywyd ysgol ac maent yn dangos balchder a hyder yn eu gwaith;
- mae ymddygiad yn gyson dda ac mae bron pob disgybl yn dangos parch, gofal a phryder am bobl eraill;
- mae profiadau dysgu yn ysgogol ac yn ennyn diddordeb disgyblion yn dda yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau; ac
- yn gyffredinol, mae safon yr addysgu'n dda, gyda rhywfaint o arfer ragorol.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- mae'r pennaeth yn cynnig cyfeiriad strategol clir i fywyd a gwaith yr ysgol;
- mae synnwyr ar y cyd o gyfeiriad rhwng y corff llywodraethol a'r uwch dîm rheoli;
- mae pob aelod o staff a'r llywodraethwyr yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau o fewn proses hunanarfarnu'r ysgol;
- mae'r cynllun datblygu ysgol yn gynhwysfawr ac yn nodi targedau perthnasol a phenodol; ac
- mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n dda ac mae gweithdrefnau sefydledig da ar waith i sicrhau bod dyrannu adnoddau ariannol yn bodloni blaenoriaethau'r ysgol ac anghenion y plant yn effeithiol.

## Argymhellion

- A1 Codi safonau mewn Cymraeg ail iaith ar draws yr ysgol
- A2 Gwella cysondeb ac effeithiolrwydd marcio
- A3 Sicrhau bod rheolwyr ac arweinwyr yn mynd i'r afael â materion diogelu
- A4 Gwella partneriaethau strategol gydag ysgolion a darparwyr eraill i wella safonau

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

#### Safonau: Da

Ar draws yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn meddu ar fedrau gwrando da. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn hyderus ac yn defnyddio ystod addas o eirfa yn effeithiol i gyfleu eu syniadau ac ymateb i gwestiynau. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, gall llawer ohonynt drafod eu syniadau'n fanylach gan ddefnyddio geirfa estynedig yn effeithiol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob un o'r disgyblion yn meddu ar fedrau cyfathrebu da ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn trafod testunau yn hyderus gyda'u hathrawon a'u cyfoedion. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn siarad yn eglur ac yn aeddfed.

Mae medrau darllen disgyblion wedi'u datblygu'n dda. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau darllen storïau, ac mae llawer ohonynt yn darllen yn glir a gyda mynegiant yn ôl eu hoedran a'u gallu. Gall llawer ohonynt siarad am eu hoff lyfrau ac mae ambell ddisgybl mwy abl yn dechrau dangos hoffter am awduron penodol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio strategaethau priodol wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau darllen ystod o lyfrau, ac maent yn darllen gyda hyder a chywirdeb. Mae disgyblion yn datblygu medrau dealltwriaeth da, a gall mwyafrif ohonynt ennill gwybodaeth o wahanol ffynonellau, gan gynnwys defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Mae disgyblion Blwyddyn 6 yn defnyddio eu medrau darllen yn llwyddiannus i ymchwilio i destunau, er enghraifft yr Ail Ryfel Byd, ac maent yn cyflwyno'r wybodaeth mewn fformatiau amrywiol fel cyflwyniad amlgyfrwng.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau ysgrifennu. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer ohonynt yn cynhyrchu darnau priodol o ysgrifennu gan ddefnyddio strwythurau brawddeg cadarn ac ystod o eirfa yn effeithiol. Yn ystod cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n effeithiol mewn amrywiaeth eang o ffurfiau. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig o safon dda mewn ystod o arddulliau a chyd-destunau ar draws y cwricwlwm, er enghraifft cyfarwyddiadau ysgrifennu mewn gwyddoniaeth, ac adroddiadau mewn hanes a daearyddiaeth. At ei gilydd, mae ansawdd sillafu, atalnodi a chyflwyniad gwaith y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn dda wrth iddynt symud trwy'r Cyfnod Sylfaen, er enghraifft wrth ddefnyddio siartiau cyfrif a chreu siartiau bar yn eu gwaith testun. Ym Mlwyddyn 1, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth dda o odrifau ac eilrifau, a gall rhai disgyblion mwy abl eu hadnabod wrth ddelio â rhifau mwy.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae safonau mewn rhifedd yn gyffredinol gadarn. Mae disgyblion yn cymhwyso eu medrau yn dda ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth

ddehongli data a chasglu a chyflwyno canlyniadau am lawiad mewn daearyddiaeth. Mewn gwyddoniaeth, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cofnodi canlyniadau'n glir ac yn effeithiol mewn graffiau bar a graffiau llinell, a gall mwyafrif o ddisgyblion hŷn gyfrifo cyfartaleddau o fewn canlyniadau.

Mae medrau Cymraeg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda yn y Cyfnod Sylfaen. Mae disgyblion yn gwranddo ac yn ymateb yn frwdfrydig i ganeuon a rhigymanau Cymraeg. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn frwdfrydig i ystod o gyfarwyddiadau, cyfarchion a chwestiynau syml yn Gymraeg. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn hyderus yn siarad Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth, ac mae geirfa yn aml yn gyfyngedig. Mae disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n briodol mewn amrywiaeth o ffurfiau ysgrifenedig gan ddilyn patrymau sefydledig. Fodd bynnag, nid yw disgyblion mwy abl yn ysgrifennu'n estynedig yn gyson. Mae mwyafrif y disgyblion yn darllen llyfrau Cymraeg yn gymwys gyda lefel briodol o ddealltwriaeth.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u targedau dysgu unigol.

At ei gilydd, mae darlun o wella mewn perthynas â chyrhaeddiad disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ac ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

Mae perfformiad yr ysgol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn cymharu'n dda â chyfartaleddau ar gyfer y teulu ac ysgolion eraill tebyg. Mae'r ysgol yn y 50% uchaf o ysgolion ar gyfer cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r deilliannau disgwylidig mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad mathemategol ac mae yn y 25% uchaf mewn datblygiad personol a chymdeithasol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad disgyblion ar y lefelau disgwylidig a'r lefelau uwch na'r disgwyl mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion ac ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru. Ar y lefel disgwylidig ac ar y lefel uwch, ar gyfer yr holl bynciau craidd, mae'r ysgol yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg. Yn gyffredinol, yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad bechgyn ar y lefelau disgwylidig a'r lefelau uwch mewn Saesneg a mathemateg wedi bod yn gyson well na pherfformiad merched.

## **Lles: Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth dda o sut i ddatblygu ffordd iach o fyw. Mae bron pob disgybl yn gwranddo'n astud ac mae llawer ohonynt yn hyderus wrth fynegi eu safbwyntiau a'u barn mewn trafodaethau dosbarth. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at fywyd ysgol ac maent yn dangos balchder a hyder yn eu gwaith. Mae bron pob un o'r disgyblion yn falch o'u hysgol ac o'u cyflawniadau unigol ynddi. Gall llawer ohonynt siarad yn dda ac yn huawdl am gymuned yr ysgol, eu gwaith a'u cyfrifoldebau. Mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod gyda phwy i siarad os oes ganddynt unrhyw bryderon.

Mae ymddygiad yn gyson dda ac mae bron pob disgybl yn dangos parch, pryder a gofal am bobl eraill. Mae bron pob un ohonynt yn gwrtais a chyfeillgar ac yn uniaethu'n dda ag oedolion ac â'i gilydd.

Mae'r cyngor ysgol, y pwyllgor eco a phwyllgorau disgyblion eraill yn weithgar ac yn delio ag ystod o faterion yn effeithiol. Maent yn cymryd rhan bwysig mewn gwneud penderfyniadau, er enghraifft wrth ddatblygu iard yr ysgol. Mae pob un o'r pwyllgorau'n cymryd eu rolau a'u cyfrifoldebau o ddifrif ac yn gydwbodol.

Mae presenoldeb cyffredinol yr ysgol yn golygu ei bod yn y 25% uchaf o ysgolion â chyfran debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

<b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>	<b>Digonol</b>
--	----------------

### **Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ymdriniaeth eang a chytbwys sy'n bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae profiadau dysgu yn ysgogol ac yn ennyn diddordeb disgyblion yn dda yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau. Mae athrawon ar draws yr ysgol yn gweithio'n dda fel tîm ac yn cynllunio ystod dda o weithgareddau yn effeithiol. Mae hyn yn sicrhau parhad a dilyniant yn nysgu'r disgyblion. Mae cynllunio athrawon yn canolbwyntio'n briodol ar ddatblygu medrau disgyblion ar draws meysydd dysgu a'r cwricwlwm. Mae cynllunio ar gyfer llythrennedd, rhifedd, TGCh a medrau meddwl yn effeithiol ac yn sicrhau bod disgyblion yn cael ystod briodol ac amrywiol o brofiadau dysgu.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o weithgareddau allgyrsiol fel clwb Ffrangeg, clwb pêl-droed a chlwb gwaith cartref, sy'n cyfoethogi dysgu'r disgyblion.

Ceir darpariaeth Gymraeg dda yn holl ddosbarthiadau'r Cyfnod Sylfaen, ac fe gaiff hyn effaith dda ar ddatblygiad ieithyddol disgyblion. Gall pob disgybl yng nghyfnod allweddol 2 fynd i'r Uned Iaith Gymraeg bob wythnos. Mae hyn yn datblygu medrau Cymraeg disgyblion yn briodol. Mae'r ysgol yn darparu ystod o gyfleoedd sy'n datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o nodweddion diwylliannol, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddatblygiad cynaliadwy yn dda. Trwy waith thematig, mae disgyblion yn datblygu eu hymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang yn llwyddiannus.

### **Addysgu: Da**

At ei gilydd, mae safon yr addysgu'n dda ac mae tystiolaeth o rywfaint o arfer ragorol. Yn y gwersi mwyaf effeithiol, mae'r addysgu'n frwdfrydig ac arloesol ac mae gweithgareddau'n heriol a rhyngweithiol. Mae disgyblion yn cymryd rôl weithredol yn eu dysgu. Yn y rhan fwyaf o wersi, mae cyflwyniadau'n fywiog, ac mae gweithgareddau ysgogol yn ennyn diddordeb pob dysgwr. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol gyfoes ac maent yn gosod cwestiynau penagored i ymestyn medrau meddwl a chyfathrebu disgyblion yn effeithiol. Mae



athrawon a staff cymorth yn ymgysylltu'n dda â disgyblion ac fe gaiff hyn effaith gadarnhaol ar safonau dysgu a lles disgyblion. Caiff ymddygiad ei reoli'n dda ac fe gynhelir awyrgylch gweithio da ym mhob dosbarth. Fodd bynnag, yn yr ychydig iawn o wersi lle mae'r addysgu'n llai effeithiol, nid yw tasgau dysgu bob amser yn herio disgyblion o bob gallu ac mae'r dysgu'n symud yn araf.

Mae gan yr ysgol systemau asesu cynhwysfawr ar waith i fonitro cynnydd disgyblion. Mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth hon yn briodol i lywio cynllunio yn y dyfodol a nodi'r rhai y mae angen cymorth neu her ychwanegol arnynt.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn datblygu'n dda mewn rhai dosbarthiadau, er nad yw hyn yn gyson ar draws yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn marcio llyfrau'n rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw marcio bob amser yn dangos yn ddigon da i ddisgyblion beth mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith.

Caiff rhieni wybodaeth werthfawr ynglŷn â chynnydd eu plentyn mewn cyfarfodydd rhieni rheolaidd ac adroddiadau blynyddol.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Anfoddhaol**

Mae ethos teuluol a chynhwysol yr ysgol yn nodwedd gref sy'n meithrin agweddau cyfrifol yn llwyddiannus ar draws cymuned ddysgu fywiog.

Caiff disgyblion eu hannog i fwyta'n iach, a thrwy weithgareddau corfforol, mae'r ysgol yn sicrhau eu bod yn cael ystod eang o gyfleoedd i gynyddu eu lefelau ffitrwydd a gwella'u hiechyd. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Caiff datblygiad personol, ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion ei gydlynu'n dda ac mae wedi'i wreiddio'n ddwfn yn y cwricwlwm ac yng ngweithgareddau dyddiol yr ysgol. Mae'r ysgol yn datblygu medrau cymdeithasol yn dda trwy ddull ymddygiad cadarnhaol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo presenoldeb da yn gyson ac mae'n sicrhau bod disgyblion a rhieni yn ymwybodol o ddisgwyliadau'r ysgol. Ceir cysylltiadau da ag asiantaethau allanol i gefnogi lles disgyblion.

Mae darpariaeth i ddisgyblion ag anghenion ychwanegol yn dda. Mae'r ysgol yn nodi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar ac mae'n darparu cynlluniau addysg unigol manwl a phwrpasol. Gwneir defnydd effeithiol o wasanaethau ac unigolion arbenigol i ddarparu cymorth ac arweiniad.

Mae'r ysgol yn trefnu cyfarfodydd adolygu rheolaidd a gweithredir yn unol â'r argymhellion yn effeithiol. Caiff rhieni a gofalwyr eu cynnwys yn weithredol yn y broses. Mae gan yr ysgol ddarpariaeth briodol i nodi a thargedu disgyblion mwy abl a dawnus.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac maent yn destun pryder difrifol.

## Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae ethos yr ysgol yn hyrwyddo lles disgyblion yn effeithiol iawn. Mae disgyblion yn cymell eu hunain a chaiff cyflawniadau eu dathlu'n rheolaidd mewn gwasanaethau ysgol gyfan. Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu ofalgar ac mae hyrwyddo parch tuag at bawb yn un o gryfderau'r ysgol. Mae gan yr ysgol ystod eang o bolisiau priodol ar waith i sicrhau bod staff a disgyblion yn cael eu trin yn deg. Mae'r ysgol yn hyrwyddo cydraddoldeb yn briodol.

Mae'r amgylchedd ffisegol yn dda. Mae adeiladau'r ysgol yn helaeth, yn drefnus ac yn cael eu cynnal yn dda. Mae gan yr ysgol ystod o adnoddau o ansawdd da, gan gynnwys Pafiliwn Chwaraeon, byrddau gwyn rhyngweithiol ym mhob dosbarth ac ystod eang o offer TGCh i fodloni anghenion dysgwyr. Mae digon o le ar gyfer dysgu yn yr awyr agored a gweithgareddau hamdden. Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd ysgogol ar gyfer disgyblion ac mae offer da yn yr ardal awyr agored ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

## Arweinyddiaeth: Digonol

Mae gan y pennaeth newydd weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol. Mae'n rhannu'r weledigaeth hon a'i gwerthoedd yn effeithiol gyda staff, rhieni, llywodraethwyr a disgyblion. Mewn modd proffesiynol ac agored, mae'n cynnig cyfeiriad strategol clir i fywyd a gwaith yr ysgol. Mae hyn yn gwella safonau addysgu a dysgu, ac yn cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae'r staff a'r llywodraethwyr yn gweithio'n effeithiol, ac mae cyfarfodydd rheolaidd yn canolbwyntio'n dda ar safonau, ansawdd yr addysgu a meysydd i'w gwella. Fel rhan o newidiadau diweddar yn y strwythur staffio, mae rhai aelodau o dîm rheoli'r ysgol wedi ysgwyddo rolau a chyfrifoldebau newydd ac maent yn ymgymryd â nhw yn gymwys.

Mae pob aelod o staff yn gweithio'n effeithiol i greu ethos ysgol gyfan sy'n annog ac yn gwerthfawrogi gwaith tîm. Gwnânt ddefnydd da o gyfarfodydd rheolaidd a system rheoli perfformiad sefydledig i gefnogi eu datblygiad proffesiynol a symud yr ysgol ymlaen. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a phrofiadau dysgu disgyblion. Mae gan yr ysgol gynllun manwl ar gyfer rhoi'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd statudol ar waith. Mae gan bob aelod o staff ddisgrifiadau swydd priodol.

Mae is-bwyllgorau fel y rhai sydd â chyfrifoldeb am safonau a'r cwricwlwm, yn gweithio'n effeithiol i wella ansawdd y ddarpariaeth yn yr ysgol. Ceir synnwyr ar y cyd o gyfeiriad rhwng y corff llywodraethol ac uwch dîm rheoli'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr a rheolwyr yn sicrhau bod gofynion statudol ynghylch gweithdrefnau diogelu'n cael eu bodloni'n llawn.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol i'r ysgol. Mae eu dealltwriaeth o ddata perfformiad yn datblygu'n dda. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn defnyddio'u gwybodaeth yn effeithiol i herio'r ysgol yn briodol.

### **Gwella ansawdd: Da**

Mae uwch arweinwyr wedi datblygu strategaeth gadarn ar gyfer hunanarfarnu sy'n defnyddio ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol, gan gynnwys data perfformiad disgyblion, arsylwadau ystafell ddosbarth a safbwyntiau rheolaidd disgyblion, rhieni a phobl eraill. Mae pob aelod o staff a llywodraethwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn y broses hunanarfarnu. Mae deilliannau'r prosesau hyn yn darparu asesiad priodol o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu, ac o ganlyniad, mae arweinwyr yn adnabod yr ysgol yn dda.

Mae arweinwyr yr ysgol yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir trwy'r broses hunanarfarnu yn dda i bennu blaenoriaethau allweddol a thargedau ar gyfer gwella'r ysgol. Mae'r cynllun datblygu ysgol yn gynhwysfawr ac yn nodi targedau perthnasol a phenodol, ac mae ynddo feini prawf llwyddo sy'n canolbwyntio'n dda ar ddeilliannau disgyblion. Mae'n rhoi amlinelliad clir o gyfrifoldebau staff, gofynion cyllid ac adnoddau a dulliau ar gyfer monitro cynnydd. Mae gwelliannau yn y ddarpariaeth dros y blynyddoedd diwethaf wedi cael effaith gadarnhaol ar wella safonau, er enghraifft mewn TGCh, mathemateg a Chymraeg ail iaith.

### **Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gyda rhieni. Cânt eu hysbysu'n dda ac maent yn teimlo'n gyfforddus am gysylltu â'r ysgol ynghylch unrhyw faterion sy'n peri pryder iddynt.

Ceir cysylltiadau da gyda'r cylch chwarae lleol, gan sicrhau bod plant ifanc yn ymgynefino'n dda yn yr ysgol. Mae gan yr ysgol broses bontio effeithiol ar gyfer disgyblion sy'n symud o'r Cyfnod Sylfaen i Flwyddyn 3 ac mae hyn yn sicrhau parhad mewn dysgu a lles. Mae cysylltiadau datblygedig gydag ysgol uwchradd y tu allan i'r sir, y mae bron pob disgybl yn trosglwyddo iddi, yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw partneriaethau gyda'r ysgol uwchradd leol ac ysgolion cynradd lleol sy'n hyrwyddo rhannu arbenigedd ac adnoddau, a safoni asesiadau athrawon yn effeithiol, wedi'u datblygu'n ddigonol. Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gyda gwasanaethau seicoleg addysg a gwasanaeth lleferydd ac iaith yr awdurdod lleol i sicrhau bod staff a disgyblion yn cael cymorth, cefnogaeth ac arweiniad effeithiol. Fodd bynnag, cyfyngedig yw partneriaethau'r ysgol gyda'r ystod ehangach o wasanaethau cymorth yr awdurdod.

Ceir cysylltiadau priodol â'r gymuned leol. Er enghraifft, mae staff yng nghanolfan leol y Llu Awyr yn rhoi cymorth gwerthfawr ar gyfer y thema 'i fyny yn yr awyr' a gynhaliwyd yn y dosbarth meithrin yn ddiweddar.

Mae partneriaethau addas gyda diwydiant a busnesau, sy'n datblygu dealltwriaeth disgyblion o fyd gwaith. Yn sgil cysylltiadau effeithiol gydag archfarchnad leol, rhoddwyd cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion ddysgu am fedrau paratoi bwyd a phobi.

Fodd bynnag, nid yw'r partneriaethau hyn yn ddigon strategol i effeithio'n llawn ar safonau dysgwyr.

### **Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n dda ac mae gweithdrefnau sefydledig ar waith i sicrhau bod dyraniad yr adnoddau ariannol yn bodloni blaenoriaethau'r ysgol ac anghenion plant. Mae Prif Reolwr Busnes yr ysgol, y pennaeth a'r llywodraethwyr yn cynllunio gwariant yn llwyddiannus ac yn monitro cyllideb yr ysgol yn effeithiol.

Mae strwythur staffio newydd yr ysgol yn sicrhau bod yr ysgol yn defnyddio staff yn effeithiol. Mae digon o athrawon cymwys a phrofiadol i gyflwyno'r cwricwlwm, ac mae'r ysgol yn defnyddio arbenigedd athrawon yn dda i wella darpariaeth a chodi safonau. Mae trefniadau llwyddiannus ar gyfer darparu amser cynllunio, paratoi ac asesu i athrawon. Mae gan yr ysgol system rheoli perfformiad effeithiol y mae'n ei defnyddio i nodi anghenion datblygiad proffesiynol parhaus pob aelod o staff. Maent wedi'u cysylltu'n briodol â blaenoriaethau gwella ysgol.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus y staff. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion ac mae wedi codi safonau perfformiad yr ysgol. Mae'r ysgol yn defnyddio cynorthwyr ystafell ddosbarth yn dda i gefnogi dysgu'r disgyblion. Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth iddynt symud trwy'r ysgol. At ei gilydd, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Sylwadau ar ddata perfformiad

Yn y Cyfnod Sylfaen yn 2013, cyflawnodd 96% o ddisgyblion y deilliant disgwyliedig mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu, ac mewn datblygiad mathemategol, ond cyflawnodd 100% y deilliant disgwyliedig mewn datblygiad personol a chymdeithasol. Mae hyn uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion. Roedd cyfran y disgyblion a gyflawnodd ddeilliant yn uwch na'r disgwyl ychydig uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion ym mhob un o'r tri maes dysgu.

O gymharu ag ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, roedd perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwyliedig yn ei gosod yn y 50% uchaf ar gyfer llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad mathemategol disgyblion, ac yn y 25% uchaf ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol. Ar y deilliant uwch na'r disgwyl, mae'r ysgol yn y 50% uwch ar gyfer iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad mathemategol, ac yn y 50% is ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol disgyblion, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol disgyblion.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig neu'n uwch mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, o'u cyfuno, uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion. Dros y tair blynedd diwethaf, mae tuedd gyffredinol perfformiad wedi bod ar i fyny. Mae perfformiad disgyblion ym mhob un o'r pynciau craidd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion.

Yn 2013, roedd cyfran y disgyblion a gyflawnodd y lefel uwch ychydig yn uwch na chyfartaledd y teulu ar gyfer Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, er bod ychydig o ostyngiad yn gyffredinol. O gymharu â pherfformiad pob ysgol yng Nghymru, mae canlyniadau'r ysgol ychydig uwchlaw'r cyfartaledd mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.

O ran ysgolion â chyfran debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, mae'r ysgol yn y 50% uchaf ar gyfer perfformiad mewn Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth a'r dangosydd pwnc craidd. Mae perfformiad cyffredinol dros y ddwy flynedd diwethaf yn dangos gwelliant.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

#### Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr

mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	
I feel safe in my school.	104	104 100%	0 0%	Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol.
		98%	2%	
The school deals well with any bullying.	104	102 98%	2 2%	Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.
		92%	8%	
I know who to talk to if I am worried or upset.	104	102 98%	2 2%	Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio.
		97%	3%	
The school teaches me how to keep healthy	104	102 98%	2 2%	Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach.
		98%	2%	
There are lots of chances at school for me to get regular exercise.	104	99 95%	5 5%	Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd.
		96%	4%	
I am doing well at school	104	102 98%	2 2%	Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol.
		96%	4%	
The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress.	104	104 100%	0 0%	Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.
		99%	1%	
I know what to do and who to ask if I find my work hard.	104	100 96%	4 4%	Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd.
		98%	2%	
My homework helps me to understand and improve my work in school.	104	98 94%	6 6%	Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol.
		91%	9%	
I have enough books, equipment, and computers to do my work.	104	103 99%	1 1%	Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith.
		95%	5%	
Other children behave well and I can get my work done.	104	91 88%	13 12%	Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith.
		78%	22%	
Nearly all children behave well at playtime and lunch time	104	98 94%	6 6%	Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.
		84%	16%	

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
Overall I am satisfied with the school.	58	51 88%	6 10%	1 2%	0 0%	0	Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol.
		63%	33%	3%	1%		
My child likes this school.	56	48 86%	8 14%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn hoffi'r ysgol hon.
		72%	26%	1%	0%		
My child was helped to settle in well when he or she started at the school.	58	50 86%	8 14%	0 0%	0 0%	0	Cafodd fy mhentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol.
		72%	26%	1%	0%		
My child is making good progress at school.	58	48 83%	10 17%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.
		61%	34%	3%	0%		
Pupils behave well in school.	57	45 79%	12 21%	0 0%	0 0%	0	Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.
		45%	46%	4%	1%		
Teaching is good.	57	50 88%	7 12%	0 0%	0 0%	0	Mae'r addysgu yn dda.
		60%	35%	2%	0%		
Staff expect my child to work hard and do his or her best.	58	54 93%	4 7%	0 0%	0 0%	0	Mae'r staff yn disgwyl i fy mhentyn weithio'n galed a gwneud ei orau.
		63%	34%	1%	0%		
The homework that is given builds well on what my child learns in school.	58	49 84%	9 16%	0 0%	0 0%	0	Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol.
		47%	40%	6%	1%		
Staff treat all children fairly and with respect.	58	49 84%	6 10%	1 2%	1 2%	1	Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.
		58%	34%	4%	1%		
My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise.	58	44 76%	12 21%	1 2%	0 0%	1	Caiff fy mhentyn ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd.
		59%	36%	2%	0%		
My child is safe at school.	58	48 83%	10 17%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn ddiogel yn yr ysgol.
		66%	31%	1%	0%		
My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs.	52	37 71%	13 25%	0 0%	0 0%	2	Mae fy mhentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
		50%	34%	4%	1%		
I am kept well informed about my child's progress.	58	40 69%	14 24%	4 7%	0 0%	0	Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhentyn.
		49%	41%	8%	2%		

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem.	56	43 77%	11 20%	1 2%	1 2%	0	Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.
		62%	31%	4%	2%		
I understand the school's procedure for dealing with complaints.	54	30 56%	19 35%	3 6%	0 0%	2	Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.
		44%	39%	7%	2%		
The school helps my child to become more mature and take on responsibility.	58	44 76%	14 24%	0 0%	0 0%	0	Mae'r ysgol yn helpu fy mhentyn i ddod yn fwy aeddfed ac ysgwyddo cyfrifoldeb.
		55%	39%	2%	0%		
My child is well prepared for moving on to the next school or college or work.	49	35 71%	8 16%	0 0%	0 0%	6	Mae fy mhentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith.
		42%	34%	4%	1%		
There is a good range of activities including trips or visits.	57	32 56%	17 30%	7 12%	0 0%	1	Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.
		53%	38%	5%	1%		
The school is well run.	55	44 80%	9 16%	0 0%	0 0%	2	Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.
		61%	33%	3%	1%		



## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

Anwen Eluned Griffith	Arolygydd Cofnodol
Hazel Hughes	Arolygydd Tîm
Anthony Bate	Arolygydd Tîm
Jeremy George Turner	Arolygydd Lleyg
Bethan Bleddyn	Arolygydd Cymheiriaid
Paula Murphy	Enwebai

## Copiau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn ([www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk))

### Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeiliant 1 i ddeiliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deiliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deiliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deiliant disgwylidig (deiliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn

chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.